# CANLLAW I SYSTEM GWYNION YR HEDDLU I BOBL IFANC

**Os oes gennyt broblem neu os wyt yn anhapus am rywbeth a ddigwyddodd i ti oedd yn ymwneud â'r heddlu, fel arfer gall hynny gael ei ddatrys trwy siarad â'r llu heddlu. Ond os na allan nhw wneud pethau'n iawn i ti, yna fe alli di gwyno.**

## BETH ALLI DI GWYNO AMDANO?



**Gallwch gwyno os:**

- Wyt yn anfodlon am y ffordd y ces di dy drin gan yr heddlu neu dy fod yn teimlo dy fod yn cael dy aflonyddu ganddynt.
- Wyt yn teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnat ti.

**Sut alli di gwyno am yr heddlu?**

- Gallwch gwyno ar wefan yr IOPC, neu gallwch gysylltu â'r llu heddlu dan sylw trwy eu gwefan neu ar y ffôn. Gyda dy ganiatâd gall rhywun gwyno drosot ti.

## BETH ALLI DI EI DDISGWYL OS BYDDI DI'N CWYNO?

- Bydd yr unigolyn sy'n ymdrin â'r gŵyn yn cysylltu â thi i gael y manylion.
- Fe ddylai ofyn beth wyt ti am ei weld yn digwydd.
- Gallwch ddisgwyl cael gwrandawiad a dy drin yn deg.
- Byddi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd dy gŵyn.
- Rhaid i ti dderbyn diweddariad bob 28 diwrnod.
- Pan fydd dy gŵyn wedi ei chwblhau, cysylltir â t hi am y canlyniad ac unrhyw weithredu fydd yn digwydd o ganlyniad i hynny.
- Os nad wyt ti'n hapus â'r canlyniad, efallai y gallwch ofyn am adolygiad.



## BETH YW'R CANLYNIADAU POSIBL?



- Efallai y bydd yr heddlu yn rhoi esboniad i ti am yr hyn ddigwyddodd.
- Efallai y bydd yr heddlu yn rhoi ymddiheuriad i ti.
- Gall y swyddogion oedd yn rhan o'r digwyddiad gael hyfforddiant a datblygiad.
- Efallai y bydd y llu heddlu yn newid ei bolisi neu weithdrefnau.
- Gall y swyddogion oedd yn rhan o'r digwyddiad wynebu camau disgyblu.

Os wyt ti'n ansicr am unrhyw beth, gallwch gysylltu â'r IOPC trwy ffonio **030 0020 0096** neu anfon e-bost at **enquiries@policeconduct.gov.uk** neu ar Twitter **@policeconduct** **policeconduct.gov.uk**

IOPC
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct